Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Ymateb i raglen y BBC, *Week In Week Out***

**Dyddiad:** **02 Rhagfyr 2009**

**Gan:** **Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Ar 25 Tachwedd darlledwyd rhaglen y BBC, *Week in Week Out* yn ymwneud â Chartref Nyrsio Glyndŵr. Roedd y rhaglen yn codi materion ynghylch diogelwch, gofal a lles preswylwyr y cartref, gan gwestiynu effeithiolrwydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fel corff rheoleiddio.

Rwy'n ystyried amddiffyn oedolion agored i niwed, eu gofal, lles ac urddas yn fater difrifol iawn, ac nid yw fyth yn dderbyniol i wasanaethau ddisgyn islaw'r safonau gofal, sydd wedi'u nodi mewn cyfraith.

Yn gyntaf, rwy'n ymdrin â'r materion yn ymwneud â chartref Glyndŵr. Mae'r cartref gofal hwn yn gofrestredig ar gyfer 40 o leoedd; cafodd ei gofrestru a'i arolygu yn unol â'r gyfraith. Mae'r adroddiad diweddaraf ar y cartref hwn, a gyhoeddwyd gan AGGCC ar 22 Awst 2009 yn nodi diffygion yn y gwasanaeth a ddarperir yn y cartref, gan restru deg o ofynion i gydymffurfio â hwy. Roedd yn ofynnol cydymffurfio â phob un o'r gofynion hyn, ac eithrio un, erbyn 1 Hydref 2009. Ni wnaeth y darparwr gydymffurfio â'r gofynion hyn ac mae AGGCC wedi bod yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfiad ers y dyddiad hwnnw.

Cynhaliodd AGGCC arolygiad dirybudd pellach yn y cartref ar 27 Tachwedd. Mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad a chamau sy'n parhau heb eu bodloni ers yr arolygiad blaenorol. Gwn y bydd Aelodau'r Cynlluniad yn deall y byddai'n amhriodol i mi ddarparu mwy o wybodaeth ar hyn o bryd, rhag andwyo unrhyw gamau pellach y gall fod angen i'r arolygiaeth neu asiantaethau eraill eu cymryd.

Yn ail, hoffwn ymdrin â mater amddiffyn oedolion agored i niwed. Yr amddiffyniad gorau yn yr hirdymor yw galluogi pobl hŷn i siarad drostynt eu hunain, gyda chymorth eiriolwyr cryf. Y staff sy'n darparu gofal a chymorth o ddydd i ddydd, ac maent yn allweddol. Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i'w gwerthfawrogi, i gryfhau eu llais, eu cefnogi a'u datblygu. Dyna pam rwy'n

ystyried gwaith Cyngor Gofal Cymru mor bwysig, a pham rwy'n annog mentrau fel yr Academi ar gyfer Ymarferwyr Gofal. Nid mater i Lywodraeth Cynulliad Cymru, arolygiaethau, cyrff rheoleiddio a'r heddlu yn unig yw mynd i'r afael â cham-drin oedolion agored i niwed. Mae comisiynwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau statudol hefyd yn cydnabod a deall eu bod yn rhannu cyfrifoldeb cyfartal i wneud hyn. Mae gan bob dinesydd a sefydliad gyfrifoldeb dros amddiffyn oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth, lle bynnag a phryd bynnag mae'n digwydd.

Mae'n bwysig ein bod yn sefydlu trefniadau effeithiol i amddiffyn oedolion agored i niwed, yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol cadarn, a dyna'r rheswm pam fy mod wedi gwneud amryw o ddatganiadau ar y mater hwn. Rydym yn cydnabod, o'n profiad, fod angen i ni gryfhau'r fframwaith a'r trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed. Yn wyneb hyn, cymerir y camau canlynol:

- Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion, sydd ag aelodaeth o blith amrediad eang o randdeiliaid. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi cyfarfod yn rheolaidd dros y 18 mis diwethaf. Bydd yn ystyried canlyniadau'r gwahanol adolygiadau sydd ar y gweill, yn ogystal â'r achos dros ddeddfwriaeth bellach ar amddiffyn oedolion, a bydd yn adrodd i'r Gweinidogion erbyn haf 2010.

- Ym Mehefin cyhoeddwyd ein Canllawiau Statudol ar Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y canllawiau hyn yn cydnabod bod diogelu oedolion mewn perygl yn galw am ymrwymiad penodol gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig mewn awdurdodau lleol a bod yn rhaid i fater amddiffyn oedolion gael blaenoriaeth ddyladwy. Yn y dyfodol, bydd pob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'w hawdurdodau lleol, a fydd yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau i amddiffyn oedolion agored i niwed.

- Ym Mawrth 2009, contractiwyd adolygiad annibynnol o'n prif ganllawiau ar amddiffyn oedolion agored i niwed, sef 'Mewn Dwylo Diogel'. Dyfarnwyd y contract i Brifysgol Morgannwg ac mae drafft o'u hadroddiad terfynol newydd ddod i law. Yn ystod y mis hwn rydym wedi cyhoeddi adran o ganllawiau diwygiedig ar gyfer 'Mewn Dwylo Diogel' sy'n egluro rolau AGGCC, yr awdurdodau lleol a'r heddlu o ran amddiffyn oedolion agored i niwed.

- Mae AGGCC ar hyn o bryd ar ganol cynnal adolygiad cenedlaethol o effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd adroddiad gorolwg cenedlaethol ar ganfyddiadau'r gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi ym Mawrth 2010.

- Mae urddas yn elfen hanfodol o ran ansawdd bywyd, ac felly mae cydnabod urddas person yn cyfrannu i'w synnwyr o iechyd da, eu lles a'u hannibyniaeth, ac yn elfen allweddol mewn gofal o ansawdd uchel. Yn Hydref 2007 lansiwyd Rhaglen Urddas a Pharch mewn Gofal. Mae Grŵp Cenedlaethol Cydgysylltu Urddas mewn Gofal wedi bod yn cynghori ar weithrediad rhaglen 3 blynedd.

- Eleni bydd £100,000 yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhaglen o hyfforddiant rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o Urddas mewn Gofal. Caiff y rhaglen ei chyflwyno ar wahân i ddwy gynulleidfa wahanol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Y gynulleidfa gyntaf fydd staff rheng flaen sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwi gwasanaethau. Yr ail gynulleidfa fydd staff sy'n ymwneud â chomisiynu a chaffael gwasanaethau. Bydd sesiynau hyfforddi (chwech ledled Cymru) yn cael eu teilwra ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Bydd tri digwyddiad gwrando ar bobl hŷn hefyd yn cael eu cynnal eleni.

- Cyhoeddais ym Mehefin eleni y byddwn yn sefydlu Comisiwn Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol i gynghori ar gyflenwi ein strategaeth ddeng mlynedd ar wasanaethau cymdeithasol. Cyhoeddais aelodaeth y Comisiwn y mis diwethaf a bydd yn adrodd y flwyddyn nesaf. Bydd gwaith y Comisiwn yn cynnwys gofal ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

Yn drydydd, hoffwn gyfeirio at y sylw a roddwyd i waith AGGCC. Mae'r arolygiaeth yn gweithio o fewn y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cofrestru, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae gan yr arolygiaeth ystod o bwerau ac offerynnau i sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â'r gyfraith. Ffurfiwyd AGGCC yn 2007 trwy uno Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ers hynny, mae'r Bwrdd Rheoli a holl staff yr arolygiaeth wedi bod yn gweithio'n galed iawn i greu arolygiaeth newydd a modern, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. I wneud hyn bu'n rhaid i'r arolygiaeth roi rhaglen newid gynhwysfawr ar waith, a pharhau i gyflawni ei chyfrifoldebau.

Gweithredwyd dau gam mawr cyntaf y rhaglen newid yn llwyddiannus, ac mae'r cam nesaf, sef adolygiad cynhwysfawr o'r prosesau cofrestru, rheoleiddio ac arolygu o dan y Ddeddf Safonau Gofal yn dechrau.

Lluniwyd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol beth amser yn ôl. Er i'r fframwaith hwn a gwaith yr arolygiaeth chwarae rhan bwysig o ran codi safonau, deuthum i'r casgliad yn yr haf bod natur a chyd-destun newidiol gofal cymdeithasol, a'r angen i ystyried sut i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni, yn golygu bod angen i ni edrych ar y modd y gall rheoleiddio gefnogi'r cam nesaf yn natblygiad y gwasanaethau. Dyna pam y cyhoeddais adolygiad strategol o reoleiddio yng Nghymru yn y Gynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mehefin, a fydd yn ystyried rôl rheoleiddio a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhain yn bodloni anghenion ein dinasyddion yn y dyfodol. Rwy'n gofyn i'r Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol a ddechreuodd weithio gyda ni yr wythnos hon, i wneud hyn yn flaenoriaeth allweddol. Mae'n sicr y bydd trafod eang ar y cynigion a ddaw yn sgil adolygiad o'r fath.

Hoffwn gofnodi fy nghydnabyddiaeth i ymroddiad a gwaith caled holl staff AGGCC. Mae'r staff yn gweithio'n ddiflino er mwyn amddiffyn oedolion a phlant agored i niwed a hybu eu lles. Mae'r arolygiaeth yn anelu at y safonau uchaf yn

ei gwaith. Nid yw'r Prif Arolygydd na'r Bwrdd Rheoli yn arfer unrhyw fesur o hunanfoddhad wrth fynd i'r afael â'r her o adeiladu arolygiaeth newydd a modern, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae effeithiolrwydd y ddwy arolygiaeth flaenorol a'r arolygiaeth gyfun newydd o ran codi safonau ar draws y sectorau gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn hysbys i'r cyhoedd, a cheir tystiolaeth glir o'r effeithiolrwydd hwnnw yn yr holl adroddiadau mae'n eu cyhoeddi bob blwyddyn, gan gynnwys adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd. Oni bai am waith yr arolygiaeth, ni fyddem wedi gwneud y cynnydd a wnaethom o ran adnabod a mynd i'r afael ag ymarfer gwael a gwasanaethau diffygiol.

Mae gennyf rai pryderon ynghylch y darllediad penodol hwn o raglen y BBC, *Week In Week Out* . Byddaf yn ysgrifennu at y BBC yn nodi fy mhryderon ynghylch y rhaglen, ac yn gofyn am gyfarfod â nhw i drafod y pryderon hynny.

Rydym i gyd wedi cymryd camau breision ymlaen wrth ddod i ddeall sut i ddiogelu ac amddiffyn oedolion. Ond mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, mai cymharol newydd yw ein profiad yn dal i fod, yn sicr o gymharu â'n profiad o amddiffyn plant. Mae'n bwysig ein bod yn cydweithio i sicrhau fod pawb ohonom yn chwarae ein rhan wrth wynebu'r her.